*DRAFFT*

# Polisi Cynllunio Cymru Pennod 6: Yr Amgylchedd Hanesyddol

# POLISI CYNLLUNIO CYMRU – PENNOD 6:
# YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL

*Cynnwys*

**6.1 Cyflwyniad**

**6.2 Amcanion**

**6.3 Rolau a Chyfrifoldebau o fewn Amgylchedd Hanesyddol Cymru**

**6.4 Cynlluniau Datblygu Lleol a'r Amgylchedd Hanesyddol**

- Safleoedd Treftadaeth y Byd
- Olion Archaeolegol
- Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth
- Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol
- Parciau a Gerddi a Thirweddau Hanesyddol

**6.5 Rheoli Datblygu a'r Amgylchedd Hanesyddol**

- Safleoedd Treftadaeth y Byd
- Olion Archaeolegol
- Adeiladau Rhestredig
- Ardaloedd Cadwraeth
- Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol
- Parciau a Gerddi Hanesyddol
- Tirweddau Hanesyddol
- Datblygiad Galluogi

**Ffigur 6.1 Cadw'r Amgylchedd Hanesyddol**

**Canllaw ar ddefnyddio datganiadau polisi cynllunio cenedlaethol mewn CDLlau**

- Ystyriaethau Lleoliadol
- Polisïau yn seiliedig ar Bynciau
- Polisïau Rheoli Datblygu Cenedlaethol

**Dogfennau Cyfeirio**

**POLISI CYNLLUNIO CYMRU – PENNOD 6:**
**YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL**

## 6.1 Cyflwyniad

6.1.1 Mae pob rhan o Gymru yn cynnwys asedau hanesyddol sy'n dangos sut y mae cenedlaethau'r gorffennol wedi ffurfio'r byd o'n hamgylch. Mae'r amgylchedd hanesyddol wrth wraidd diwylliant Cymru a'i chymeriad ac mae'n cyfrannu at ein hymdeimlad o le a hunaniaeth ddiwylliannol. Mae'n gwella ansawdd ein bywyd ac yn ychwanegu at natur unigryw ardaloedd yn rhanbarthol ac yn lleol ac mae'n ased economaidd a chymdeithasol pwysig. Mae'n hanfodol y caiff yr amgylchedd hanesyddol ei werthfawrogi, ei warchod, ei gynnal a'i wneud yn hygyrch er lles cyffredinol y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol.

6.1.2 Mae amgylchedd hanesyddol Cymru yn cynnwys nodweddion hanesyddol unigol, safleoedd archaeolegol, adeiladau hanesyddol a pharciau, gerddi a thirweddau hanesyddol, a elwir, gyda'i gilydd, yn asedau hanesyddol. Gwarchodir y pwysicaf o blith yr asedau hanesyddol hyn yn statudol drwy eu cofrestru, eu rhestru neu eu dynodi'n ardal gadwraeth. Cynhwysir asedau eraill mewn cofrestrau ffurfiol, sy'n nodi eu bod o ddiddordeb hanesyddol arbennig. Mae llawer o asedau eraill yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad lleol ac ymdeimlad o le. Mae rhai, megis olion archaeolegol claddedig, heb eu nodi eto. Mae'n bwysig gwarchod yr hyn sy'n arwyddocaol am yr asedau hyn a chynnal ei natur unigryw. Dylai asedau hanesyddol gael eu cofnodi a'u harchwilio pan fyddant yn cael eu newid neu eu dinistrio. Mae asedau hanesyddol yn adnoddau na ellir eu hadnewyddu.

6.1.3 Mae'n rhaid i'r amgylchedd hanesyddol barhau i fod yn berthnasol i ddiwylliant ac economi Cymru ac yn rhan fywiog ohonynt. Wrth wneud ceisiadau cynllunio sy'n ymwneud ag asedau hanesyddol a phenderfynu arnynt, mae'n rhaid i ymgeiswyr ac awdurdodau rhoi cydsyniad ddarparu gwybodaeth a chymryd camau sy'n gymesur ag effaith y cynigion, a'r effeithiau ar arwyddocâd yr asedau a'u gwerthoedd treftadaeth.[1]

## 6.2 Amcanion

6.2.1 Mae'n bwysig bod yr amgylchedd hanesyddol yn cael ei warchod, ei reoli a'i gadw. Amcanion Llywodraeth Cymru yn y maes hwn yw:

- cadw a gwella'r amgylchedd hanesyddol, sy'n adnodd cyfyngedig na ellir ei adnewyddu ac yn rhan bwysig o hunaniaeth hanesyddol a diwylliannol Cymru
- cydnabod ei gyfraniad at fywiogrwydd economaidd a diwylliant, balchder dinesig, natur unigryw'r ardal leol ac ansawdd bywyd yng Nghymru, a'i bwysigrwydd fel adnodd i'w gynnal ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

---

[1] Llywodraeth Cymru/Cadw, *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy*, 2011.

- seilio penderfyniadau ar ddealltwriaeth o natur ac arwyddocâd asedau hanesyddol Cymru
- cyfrannu at wybodaeth a dealltwriaeth o'r gorffennol drwy lunio cofnod priodol pan gaiff rhannau o ased hanesyddol eu datgelu neu pan fyddant yn cael eu colli, a sicrhau bod y cofnod hwn neu ganlyniadau unrhyw archwiliad yn cael eu harchifo'n ddiogel a'u cyhoeddi.

ac yn benodol:

- gwarchod Gwerth Cyffredinol Eithriadol Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru
- cadw olion archaeolegol, er eu mwyn eu hunain ac oherwydd y rôl y maent yn ei chwarae o ran addysg, hamdden a'r economi
- diogelu cymeriad adeiladau hanesyddol a rheoli newid er mwyn sicrhau y caiff eu diddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig ei warchod
- diogelu neu wella cymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth, tra'n helpu i sicrhau eu bod yn parhau'n llewyrchus ac yn ffyniannus
- gwarchod a gwella safleoedd ar y gofrestr o barciau a gerddi hanesyddol yng Nghymru, a chadw ardaloedd ar y gofrestr o dirweddau hanesyddol yng Nghymru.

6.2.2 Mae gan awdurdodau cynllunio lleol rôl bwysig i'w chwarae yn gwarchod a chadw'r amgylchedd hanesyddol tra'n ei helpu i ddiwallu anghenion presennol a pharhau i ymateb iddynt. Mae hon yn agwedd allweddol ar gyfrifoldebau datblygu cynaliadwy ehangach awdurdod y dylid ei hystyried wrth lunio polisïau cynllunio a chyflawni swyddogaethau rheoli datblygu. Mae hefyd yn cyfrannu at saith nod llesiant Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru gynaliadwy.[2]

6.2.3 Dylai awdurdodau cynllunio lleol geisio ailddefnyddio neu addasu asedau hanesyddol er mwyn lleihau allyriadau carbon, sicrhau datblygu cynaliadwy ac ymateb i effaith newid yn yr hinsawdd. Efallai na fydd yn bosibl osgoi rhywfaint o wrthdaro rhwng y nod o gadw asedau hanesyddol ac amcanion newid yn yr hinsawdd, ond gellir lliniaru hyn yn aml drwy waith cynllunio gofalus, er enghraifft drwy leoli cyfarpar a seilwaith ynni adnewyddadwy.[3] Dylid pwyso a mesur y budd cyhoeddus a sicrheir drwy gymryd camau i leihau allyriadau carbon, neu addasu i effaith newid yn yr hinsawdd, yn erbyn unrhyw niwed i arwyddocâd asedau hanesyddol.

## 6.3 Rolau a Chyfrifoldebau o fewn Amgylchedd Hanesyddol Cymru

6.3.1 Mae gan Weinidogion Cymru ddyletswyddau i warchod a chadw amgylchedd hanesyddol Cymru a hyrwyddo gwerthfawrogiad ohono a gyflawnir drwy wasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru

[2] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
[3] *Ynni adnewyddadwy a'ch adeilad hanesyddol*, Llywodraeth Cynulliad Cymru/Cadw 2010, (hyperddolen)

(Cadw). Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i alw i mewn geisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig er mwyn iddynt benderfynu arnynt a gallant hefyd alw i mewn geisiadau cynllunio sy'n cael mwy nag effaith leol ar fathau eraill o asedau hanesyddol dynodedig, neu sy'n bodloni meini prawf a nodir ym *Mholisi Cynllunio Cymru*.

6.3.2 Mae Cadw yn nodi adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig er mwyn iddynt gael eu rhestru, ac yn cofrestru henebion o bwysigrwydd cenedlaethol. Mae'n gyfrifol am ychwanegu safleoedd at y gofrestr o barciau a gerddi hanesyddol yng Nghymru, ac, mewn partneriaeth â Cyfoeth Naturiol Cymru, am gynnwys ardaloedd ar y gofrestr o dirweddau hanesyddol yng Nghymru.

6.3.3 Mae Cadw yn penderfynu ar geisiadau am ganiatâd heneb gofrestredig ac mae'n ymgynghorai statudol ar gyfer mathau penodol o ddatblygiadau sy'n effeithio ar henebion cofrestredig, Safleoedd Treftadaeth y Byd,[4] Asesiadau Amgylcheddol Strategol a barn gwmpasu ar gyfer Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol.

6.3.4 Cyhoeddodd Cadw *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer rheoli'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru mewn ffordd gynaliadw*y yn 2011. Mae Cadw yn cyflawni ei dyletswyddau statudol, yn gwneud penderfyniadau neu'n cynnig cyngor ar newidiadau i asedau hanesyddol ar sail yr egwyddorion hyn. Dylai *Egwyddorion Cadwraeth* hefyd gael eu defnyddio gan eraill i asesu'r effeithiau y gallai cynnig datblygu eu cael ar arwyddocâd unrhyw ased/asedau hanesyddol ac i helpu i wneud penderfyniadau lle mae'r broses gynllunio yn effeithio ar yr amgylchedd hanesyddol.

6.3.5 Mae *Egwyddorion Cadwraeth* Cadw yn cydnabod bod yr amgylchedd hanesyddol cyfan yn adnodd cyfyngedig a rennir. Felly, mae Cadw yn meithrin dealltwriaeth o gymeriad hanesyddol er mwyn tynnu sylw at natur unigryw ardaloedd trefol a gwledig yng Nghymru, a llywio penderfyniadau ynghylch eu dyfodol.[5]

6.3.6 Mae gan awdurdodau cynllunio lleol gyfrifoldebau dros benderfynu ar ganiatadau adeilad rhestredig ac ardal gadwraeth yn eu hardaloedd. Mae'n ofynnol iddynt lunio a chyhoeddi cynigion ar gyfer gwarchod a gwella ardaloedd cadwraeth.[6] Mae angen rheoli ardaloedd cadwraeth yn gadarnhaol er mwyn diogelu neu wella eu cymeriad a'u golwg a sicrhau bod eu gwerth treftadaeth yn cael ei wireddu'n llawn. Dylai awdurdodau cynllunio lleol bennu eu meini prawf eu hunain ar gyfer adolygu ardaloedd cadwraeth presennol a/neu newydd a'u ffiniau yn eu herbyn.[7] Gall llunio arfarniadau o ardaloedd

[4] Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) (Diwygio) 2016 Erthyglau 14 a 15, Atodlen 4 (l)
[5] Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio para 5.6.2
[6] Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990
[7] Dim ond pan fydd rhan o'r ardal neu'r ardal gyfan wedi colli ei diddordeb arbennig y dylid diwygio neu ganslo'r dynodiad hwn.

cadwraeth a chynlluniau rheoli helpu awdurdodau cynllunio i gyflawni eu swyddogaethau rheoli datblygu.

6.3.7 Mae'r Ddeddf Cynllunio (Cymru)[8] yn cyflwyno gofyniad gorfodol i gynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio ar gyfer mathau penodol o waith datblygu. Mae'r gofyniad yn rhoi'r cyfrifoldeb ar y datblygwr i gynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio ag ymgyngoreion a nodir mewn deddfwriaeth.[9] Bydd awdurdodau cynllunio lleol yn gallu rhoi cyngor i ymgeiswyr ynglŷn â ph'un a yw eu cynnig datblygu yn gofyn am ymgynghoriad cyn ymgeisio o dan ofynion y Ddeddf a hefyd y cyrff y mae'n ofynnol ymgynghori â hwy o dan yr amgylchiadau hyn.

6.3.8 Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC) yw'r corff archwilio ac archif genedlaethol ar gyfer amgylchedd hanesyddol Cymru. Mae'n llunio casgliad cynhwysfawr o gofnodion ar asedau hanesyddol Cymru (y Cofnod Henebion Cenedlaethol) ac yn trefnu eu bod ar gael i'w defnyddio gan unigolion a chyrff sy'n ymwneud â deall, cadw a rheoli'r amgylchedd hanesyddol.

6.3.9 Adrannau curadol yr ymddiriedolaethau archaeolegol yng Nghymru sy'n rheoli ac yn cynnal cofnodion amgylchedd hanesyddol (CAHau). Gallant roi cyngor archaeolegol i'r awdurdodau cynllunio lleol a dylid cysylltu â hwy, fel y bo'n briodol, wrth arfer swyddogaethau llunio cynlluniau a rheoli datblygu.

## 6.4 Cynlluniau Datblygu Lleol a'r Amgylchedd Hanesyddol

6.4.1 Mae'n rhaid i gynlluniau datblygu lleol (CDLlau) ystyried polisïau cenedlaethol ar yr amgylchedd hanesyddol.[10] Dylai cynlluniau datblygu hefyd nodi cynigion ar gyfer ailddefnyddio neu waith datblygu newydd sy'n effeithio ar ardaloedd ac adeiladau hanesyddol, a all helpu i gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer adfywio trefol a gwledig.

6.4.2 Wrth baratoi cynlluniau ac asesu cynigion ar gyfer datblygu, mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol adolygu eu mynediad i gofnodion o'r amgylchedd hanesyddol yn eu hardal yn rheolaidd.[11] Mae cofnodion amgylchedd hanesyddol yn adnoddau amhrisiadwy ar gyfer llunio cynlluniau datblygu a phenderfynu ar geisiadau cynllunio.

6.4.3 Wrth lunio CDLl, mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol gynnal Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mae asesiad o'r dreftadaeth ddiwylliannol yn un o'r astudiaethau sylfaenol yn y broses hon ac mae angen ymgynghori â Cadw yn ei gylch.[12] Wrth gynnal yr arfarniad, dylid defnyddio sail dystiolaeth gyfredol, megis y sail dystiolaeth a ddarperir

---

[8] Deddf Cynllunio (Cymru) Adran 17
[9] Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) (Diwygio) 2016
[10] Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, pennod 6, adran 62 (5)
[11] Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, pennod 5, adran 61 (2)
[12] Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004; Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004, OS 2004/1656, adrannau 4, 5 (2), 5 (4) ac Atodlen 2, 6 (k); Llawlyfr Llywodraeth Cymru ar Gynlluniau Datblygu Lleol 2006, adrannau 3.5 a 5.4.3.

gan y CAH ar gyfer yr ardal awdurdod lleol a'r Cofnod Henebion Cenedlaethol.

**Safleoedd Treftadaeth y Byd**

6.4.4 Mae'n rhaid i CDLlau adlewyrchu'r ffaith bod Safleoedd Treftadaeth y Byd wedi'u harysgrifo gan UNESCO oherwydd eu Gwerth Cyffredinol Eithriadol.[13] Gall y safleoedd hyn hefyd gyfrannu at ymdeimlad cenedlaethol a lleol o gymuned a gwaith datblygu ac adfywio economaidd cynaliadwy. Gallant gwmpasu awdurdodaeth mwy nag un awdurdod ac mae angen sicrhau bod polisïau cynllunio cyson yn y CDLlau perthnasol. Ystyrir mai mabwysiadu canllawiau cynllunio atodol, y cytunwyd arnynt gan bob awdurdod perthnasol, yw'r ffordd fwyaf effeithiol o gadw Safleoedd Treftadaeth y Byd.

**Olion Archaeolegol**

6.4.5 Mae'r amgylchedd hanesyddol yn cynnwys holl olion ffisegol gweithgarwch dynol yn y gorffennol sydd wedi goroesi. Mae i'r asedau hanesyddol a nodwyd yn unigol, sy'n ffurfio'r amgylchedd hanesyddol, arwyddocâd archaeolegol. Mae olion archaeolegol o'r fath wedi goroesi fel tystiolaeth uwchlaw'r ddaear ac o dan y ddaear ac maent yn cynnwys asedau morol tanddwr yn ogystal ag asedau daearol. Maent yn adnodd cyfyngedig na ellir ei adnewyddu.

6.4.6 Ni chaiff yr holl olion o bwysigrwydd cenedlaethol sy'n haeddu cael eu diogelu eu dynodi fel henebion cofrestredig o reidrwydd ac mae llawer o'r adnodd archaeolegol heb ei ddarganfod eto. Gall yr olion hyn a'u lleoliadau ac, o dan amgylchiadau priodol, olion archaeolegol anghofrestredig eraill sy'n llai pwysig a'u lleoliadau gael eu nodi mewn CDLlau fel rhai sy'n haeddu cael eu diogelu. Gall awdurdodau cynllunio lleol hefyd ddatblygu Canllawiau Cynllunio Atodol er mwyn ymateb i amgylchiadau lleol penodol, er enghraifft, drwy nodi ardaloedd archaeolegol sensitif lleol lle mae olion pwysig yn debygol o gael eu datguddio a'u difrodi os bydd gwaith datblygu yn mynd rhagddo.

**Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth**

6.4.7 Dylai polisïau CDLl gynnwys polisïau sy'n benodol i'r ardal leol ar gyfer cadw'r amgylchedd adeiledig, gan gynnwys gwarchod neu wella adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth. Dylai polisïau CDLl hefyd nodi'n glir y caiff cynigion datblygu eu barnu yn ôl eu heffaith ar adeiladau rhestredig a'u lleoliad, ac ar gymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth, fel y'u nodir yn y dogfennau arfarnu perthnasol ar gyfer dynodiadau o'r fath.

[13] Convention Concerning the Protection of World Cultural and Natural Heritage, UNESCO 1972.

### Asedau Hanesyddol Lleol

6.4.8 Gall awdurdodau cynllunio lleol benderfynu bod ased hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig a gallant ddatblygu a chyhoeddi rhestrau o asedau hanesyddol lleol, nad ydynt yn cael eu gwarchod yn statudol, ond sy'n gwneud cyfraniad pwysig at natur unigryw'r ardal leol ac a allai gyfrannu at wybodaeth y cyhoedd. Pan fydd awdurdod cynllunio lleol yn dewis nodi asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig, mae'n rhaid cynnwys polisïau ar gyfer eu diogelu a'u gwella yn y cynllun datblygu lleol.

### Parciau a Gerddi a Thirweddau Hanesyddol

6.4.9 Wrth lunio eu CDLlau, mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ystyried y gofrestr o barciau a gerddi hanesyddol yng Nghymru a dylent ddatblygu polisïau a fydd yn cyfrannu at eu gwarchod a'u gwella. Dylent hefyd ystyried ardaloedd sydd wedi'u cynnwys yn y gofrestr o dirweddau hanesyddol yng Nghymru a datblygu polisïau a fydd yn cyfrannu at y gwaith o'u cadw.

## 6.5 Rheoli Datblygu a'r Amgylchedd Hanesyddol

### Safleoedd Treftadaeth y Byd

6.5.1 Mae effeithiau datblygiadau arfaethedig ar Safle Treftadaeth y Byd a'i leoliad a, lle mae'n bodoli, glustogfa Safleoedd Treftadaeth y Byd, yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar unrhyw gais cynllunio.

6.5.2 Cyfyngir ar hawliau datblygu penodol a ganiateir ar dir ar Safle Treftadaeth y Byd.[14]

6.5.3 Mae Cadw yn ymgynghorai statudol ar gyfer ceisiadau cynllunio sy'n debygol o effeithio ar Werth Cyffredinol Eithriadol Safle Treftadaeth y Byd[15]

### Olion archaeolegol

6.5.4 Mae dymunoldeb diogelu olion archaeolegol yn dal i fod yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar gais cynllunio, p'un a yw'r olion hynny yn heneb gofrestredig ai peidio. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y rhoddir caniatâd cynllunio os bydd datblygiad yn cael effaith negyddol ar heneb gofrestredig (neu safle archaeolegol y dangoswyd ei fod o bwysigrwydd cenedlaethol) neu effaith niweidiol sylweddol ar ei lleoliad. Mewn achosion sy'n cynnwys olion archaeolegol llai pwysig, bydd angen i awdurdodau cynllunio lleol bwyso a mesur pwysigrwydd cymharol yr olion archaeolegol a'u

---

[14] Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2014.
[15] Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) (Diwygio) 2016 Erthyglau 14 a 15, Atodlen 4 (l) (v)

lleoliadau ymhlith ffactorau eraill, gan gynnwys yr angen am y datblygiad arfaethedig.

6.5.5 Gellir cysoni anghenion archaeoleg a datblygu, a lleihau unrhyw wrthdaro posibl yn sylweddol, os bydd datblygwyr yn trafod eu cynigion â'r awdurdod cynllunio lleol yn gynnar mewn trafodaethau cyn ymgeisio. Gall asesiad archaeolegol desg gael ei gomisiynu gan ddatblygwr neu gall yr awdurdod cynllunio lleol fynnu bod un yn cael ei gynnal (weithiau fel rhan o Asesiad ehangach o'r Effaith Amgylcheddol) er mwyn darparu gwybodaeth am bwysigrwydd archaeolegol safle cyn cyflwyno cais cynllunio. Os yw'n debygol iawn bod olion archaeolegol pwysig i'w cael ar safle datblygu, dylai'r awdurdod cynllunio lleol ofyn i'r darpar ddatblygwr drefnu gwerthusiad maes archaeolegol. Dylai canlyniadau unrhyw asesiad a/neu werthusiad maes gael eu darparu fel rhan o gais cynllunio a bod yn rhan o ystyriaeth yr awdurdod cynllunio lleol o'r cais hwnnw.[16] Dylai faint o wybodaeth a gwaith dadansoddi sydd eu hangen fod yn gymesur â'r cynnig, ac yn ddigon i nodi'r effaith bosibl ar yr amgylchedd hanesyddol. Os na ddarperir y wybodaeth hon i safon briodol, dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried a oes angen gofyn i'r ymgeisydd ddarparu rhagor o wybodaeth, neu a ddylid gwrthod rhoi caniatâd i'r cynnig am na ddarparwyd digon o ddogfennaeth ar ei gyfer.[17]

6.5.6 Gall awdurdodau cynllunio lleol osod amodau er mwyn gwarchod olion archaeolegol, os ydynt yn bwriadu cymeradwyo cais. Fodd bynnag, pan fydd awdurdod cynllunio lleol yn penderfynu nad oes cyfiawnhad dros ddiogelu olion archaeolegol yn ffisegol *lle y maent*, ac y dylai'r datblygiad a fydd yn arwain at ddinistrio'r olion archaeolegol fynd yn ei flaen, mae'n rhaid iddo fod yn fodlon bod y datblygwyr wedi darparu'n briodol ac yn foddhaol ar gyfer y canlynol:

- cynnal archwiliad archaeolegol o'r olion a'u cofnodi wedyn
- dadansoddi, archifo a chyhoeddi'r canlyniadau
- trefnu'r archif a'i rhoi mewn storfa gymeradwy.

Fel arfer gwneir hyn drwy gynllun archwilio ysgrifenedig a gyflwynir gan yr ymgeisydd i gael cymeradwyaeth yr awdurdod cynllunio lleol a sicrheir, lle y bo angen, drwy ddefnyddio amodau neu rwymedigaethau cynllunio. Gellir gosod amod sy'n gwahardd dechrau gweithio ar y datblygiad nes i'r gwaith angenrheidiol gael ei wneud gan archaeolegwyr arbenigol cymwys i'r safonau priodol.[18] Dylid cynnal archwiliadau archaeolegol cyn i unrhyw waith datblygu ddechrau, gan weithio yn unol â chynllun prosiect y cytunwyd arno gan yr awdurdod cynllunio a'i gynghorwyr archaeolegol ac sy'n cael ei fonitro ganddynt.

---

[16] Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 60/96 Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Archaeoleg para.14

[17] Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 60/96 Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Archaeoleg para.14

[18] Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 60/96 Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Archaeoleg para.23

6.5.7 Er gwaethaf ymdrechion gorau'r ymgeisydd a'r awdurdod cynllunio lleol, mae'n bosibl y caiff olion archaeolegol nas rhagwelwyd eu darganfod o hyd tra bydd gwaith datblygu yn mynd rhagddo. Dylai unrhyw gynllun archwilio ysgrifenedig ystyried sut i ymateb i amgylchiadau o'r fath neu sut y gellir ei ddiogelu drwy osod amod priodol ar gyfer briff gwylio archaeolegol. Os na fydd yr un o'r dulliau hyn i'w gael, bydd angen i'r datblygwr a'r awdurdod cynllunio lleol negodi ateb derbyniol. Mewn achosion eithriadol, mae'n bosibl y bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried bod yr olion o bwysigrwydd cenedlaethol ac y cânt eu dynodi fel heneb gofrestredig. Mewn achosion o'r fath, ni ddylai gwaith ailddechrau nes i'r datblygwr gael caniatâd [19] heneb gofrestredig.[20]

6.5.8 Mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol ymgynghori â Gweinidogion Cymru ar unrhyw gynnig datblygu sy'n debygol o effeithio ar y safle neu leoliad heneb gofrestredig.[21] Yn yr achosion hyn, dylai'r awdurdod cynllunio lleol hysbysu ymgeiswyr bod angen iddynt gael caniatâd heneb gofrestredig ar gyfer unrhyw waith arfaethedig a fyddai'n effeithio'n uniongyrchol ar yr ardal ddynodedig. Dim ond ar gyfer cynigion manwl y gellir rhoi caniatâd heneb gofrestredig a chynghorir ymgeiswyr i gael y caniatâd hwn gyntaf, am nad yw caniatâd cynllunio ar ei ben ei hun yn ddigon i awdurdodi'r gwaith.

### Adeiladau rhestredig

6.5.9 Nid oes unrhyw ofyniad statudol i ystyried darpariaethau'r cynllun datblygu wrth ystyried **ceisiadau am ganiatâd heneb gofrestredig**, gan fod y Llysoedd, yn yr achosion hyn, wedi derbyn nad yw Adran 54A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (a ddisodlwyd gan adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004) yn gymwys.

6.5.10 Dylai fod rhagdybiaeth gyffredinol o blaid diogelu adeilad rhestredig a'i leoliad, a allai ymestyn y tu hwnt i'w gwrtil. Ar gyfer unrhyw gynnig datblygu sy'n effeithio ar adeilad rhestredig neu ei leoliad, y brif ystyriaeth berthnasol yw'r gofyniad statudol i roi ystyriaeth benodol i ddymunoldeb diogelu'r adeilad, ei leoliad neu unrhyw nodweddion o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig sydd ganddo.[22] Dylid anelu at ddod o hyd i'r ffordd orau o warchod a gwella nodweddion arbennig adeiladau rhestredig, gan sicrhau y gellir parhau i wneud defnydd cynaliadwy ohonynt. Fel arfer, dylid yn gyntaf anelu at barhau â'r defnydd gwreiddiol neu ei adfer ond ni fydd pob defnydd gwreiddiol yn ymarferol nac yn briodol mwyach Wrth weithredu rheolaethau datblygu a rheolaethau adeilad rhestredig dylid cydnabod yr angen am hyblygrwydd pan fydd yn rhaid ystyried ffyrdd newydd o ddefnyddio adeilad rhestredig er mwyn sicrhau y bydd adeilad yn goroesi.

---

[19] Gwybodaeth am Ganiatâd Heneb Gofrestredig: http://cadw.gov.wales/historicenvironment/help-advice-and-grants/makingchanges/schedmonconsent/?skip=1&lang=cy

[20] Deddf Henebion a Mannau Archaeolegol 1979, adran 7.

[21] Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) (Diwygio) 2016, Erthygl 14 a 15, Atodlen 4 (l)(i) a (ii)

[22] Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, adran 66.

6.5.11 Bydd awdurdodau cynllunio lleol yn penderfynu ar geisiadau am ganiatâd ar gyfer dymchwel adeilad rhestredig ac unrhyw waith i'w newid neu ei estyn a fyddai'n effeithio ar ei gymeriad fel adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Mae rheolaethau yn gymwys i bob gwaith, yn allanol ac yn fewnol, gan gynnwys gosodiadau a strwythurau cwrtil a fyddai'n effeithio ar ddiddordeb arbennig adeilad. Argymhellir yn gryf y dylid cynnal trafodaethau cyn ymgeisio rhwng yr ymgeisydd, yr awdurdod cynllunio lleol a, lle y bo'n briodol, Cadw er mwyn nodi pa waith y bydd angen cael caniatâd heneb gofrestredig ar ei gyfer, faint o wybodaeth y bydd angen ei darparu a pha faterion eraill, megis dyletswyddau o ran cadwraeth natur,[23] sydd angen eu datrys. Os cyfarwyddir hwy i wneud hynny, mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio hysbysu Gweinidogion Cymru cyn i ganiatâd adeilad rhestredig gael ei roi fel y gellir ystyried a yw'r gweithdrefnau a'r canllawiau cywir wedi'u dilyn, neu a yw'r cais yn codi materion sy'n bwysig y tu hwnt i'r ardal leol, y byddai'n angen eu galw i mewn er mwyn i Weinidogion Cymru benderfynu arnynt.[24]

6.5.12 Mae'n rhaid i ymgeiswyr am ganiatâd adeilad rhestredig allu cyfiawnhau eu cynigion a dangos pam ei bod yn ddymunol neu'n angenrheidiol newid neu ddymchwel adeilad rhestredig. Dylid cynnwys hyn mewn Datganiad Dylunio a Mynediad, a fydd yn gymesur ag arwyddocâd yr adeilad a graddau'r newid a gynigir. Fel arfer mae'n well i'r ymgeisydd a'r awdurdod cynllunio lleol os caiff ceisiadau cysylltiedig am ganiatâd cynllunio eu hystyried ar yr un pryd. Dylai cynigion ar gyfer adeilad rhestredig gael eu hystyried ar sail caniatâd cynllunio llawn yn hytrach na chaniatâd cynllunio amlinellol. Nid yw caniatâd cynllunio ar ei ben ei hun yn ddigon i awdurdodi gwaith ar adeilad rhestredig. Gellir gosod amodau priodol hefyd ar unrhyw ganiatâd adeilad rhestredig hefyd. Gallai'r rhain, er enghraifft, gynnwys cyflwyno datganiad dulliau cadwraeth ar gyfer gwaith penodol neu ddiogelu'r adeiladwaith hanesyddol, neu waith cofnodi archaeolegol.[25]

6.5.13 Yn achlysurol, cyflwynir ceisiadau i ddymchwel adeilad rhestredig. Mae angen cyfiawnhau'r rhain yn llawn a chraffu arnynt cyn gwneud unrhyw benderfyniad. Dylid ystyried dymchwel unrhyw adeilad rhestredig yn weithred eithriadol a dylai fod rhesymau da iawn dros wneud hynny. Wrth benderfynu ar geisiadau i ddymchwel adeiladau rhestredig yn gyfan gwbl neu'n sylweddol, dylai awdurdodau ystyried y canlynol: cyflwr yr adeilad, cost ei atgyweirio a'i gynnal a'i gadw o gymharu â'i bwysigrwydd a'r gwerth sy'n deillio o barhau i'w ddefnyddio, digonolrwydd ymdrechion a wnaed i sicrhau bod yr adeilad yn parhau i gael ei ddefnyddio a rhinweddau cynigion amgen ar gyfer y safle. Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ganiatâd gael ei roi heb gael tystiolaeth gadarn gan yr ymgeisydd bod pob ymdrech resymol i gynnal defnyddiau presennol, neu ddod o hyd i ddefnyddiau newydd ymarferol, wedi methu; nad

---

[23] Polisi Cynllunio Cymru, pennod 5.
[24] Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru), Rheoliadau 2012
[25] Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 016/2014: Defnyddio Amodau Cynllunio i Reoli Datblygu, para. 79 - 80

yw'n bosibl nac yn addas diogelu'r adeilad mewn rhyw fath o berchenogaeth elusennol neu gymunedol; neu y byddai ailddatblygu'r adeilad sicrhau manteision sylweddol i'r gymuned y mae'n amlwg y byddent yn bwysicach na'r golled a fyddai'n deillio o ddymchwel yr adeilad. Dylid ymgynghori â'r gymdeithas amwynder genedlaethol berthnasol ynghylch y ceisiadau hyn.[26]

6.5.14 Ni ddylai awdurdodau cynllunio lleol awdurdodi dymchwel adeilad rhestredig er mwyn gwneud lle i ddatblygiad newydd oni bai bod y datblygiad newydd yn sicr o fynd ei flaen. Gellir sicrhau'r gofyniad hwn gan ddefnyddio amod.[27] Gellir defnyddio amodau hefyd i fynnu bod nodweddion penodol yn cael eu diogelu a/neu fod gwaith yn cael ei wneud mewn ffordd benodol.[28]

6.5.15 Rhaid hysbysu Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru am unrhyw gynigion i ddymchwel adeiladau rhestredig a chaniatáu iddo fynd i mewn i adeiladau y mae am eu cofnodi cyn iddynt gael eu dymchwel[29] am o leiaf fis. Ym mhob achos lle y bwriedir newid neu ddymchwel adeilad rhestredig dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried a ddylid gosod amod ar ganiatâd adeilad rhestredig neu ganiatâd cynllunio yn mynnu bod nodweddion a fyddai'n cael eu dinistrio, eu cuddio neu eu datguddio dros dro yn destun rhaglen cofnodi, dadansoddi a chyhoeddi archaeolegol. Dylai'r rhaglen archaeolegol hon fod yn gymesur â graddfa'r gwaith sy'n cael ei wneud.

6.5.16 Mae gan awdurdodau cynllunio lleol y pŵer i gyflwyno Hysbysiadau Cadw Adeilad ar adeiladau anrhestredig os ystyrir bod yr adeiladau hynny o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig ac mewn perygl o gael eu dymchwel neu eu newid a fyddai'n effeithio ar eu cymeriad.[30] Hysbysiad Cadw Adeilad yw'r dull statudol o restru adeilad dros dro ac mae'n gymwys am gyfnod o chwe mis. Mae'r rhan fwyaf o'r darpariaethau deddfwriaethol sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig yn gymwys i'r adeilad dan sylw ac yn dod i rym ar unwaith pan gyflwynir Hysbysiad Cadw Adeilad.[31]

### Ardaloedd cadwraeth

6.5.17 Nid oes unrhyw ofyniad statudol i ystyried darpariaethau'r cynllun datblygu wrth ystyried **ceisiadau am ganiatâd ardal gadwraeth**, gan fod y Llysoedd, yn yr achosion hyn, wedi derbyn nad yw Adran 54A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (a ddisodlwyd gan adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004) yn gymwys.

6.5.18 Dylai fod rhagdybiaeth gyffredinol o blaid diogelu neu wella cymeriad neu olwg ardal gadwraeth neu ei lleoliad. Mae'n well, i'r ymgeisydd a'r

---

[26] Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 61/96 Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth
[27] Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, adran 17(3).
[28] Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 016/2014: Defnyddio Amodau Cynllunio i Reoli Datblygu, para. 79 - 80
29 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 Adran 8(c)(i)
[30] Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, adran 3.
[31] Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 Adran 3

awdurdod cynllunio lleol, ystyried ceisiadau cysylltiedig am ganiatâd cynllunio a chaniatâd ardal gadwraeth ar yr un pryd. Dylai cynigion ar gyfer gwaith datblygu mewn ardal gadwraeth gael eu hystyried ar sail cais llawn yn hytrach na chais amlinellol.

6.5.19 Bydd rhagdybiaeth gref yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau, gan gynnwys hysbysebion, sy'n amharu ar gymeriad neu olwg ardal gadwraeth neu ei lleoliad i lefel annerbyniol.[32] O dan amgylchiadau eithriadol, gellir diystyru'r rhagdybiaeth o blaid gwaith datblygu yr ystyrir ei fod yn ddymunol ar sail rhyw fuddiant cyhoeddus arall. Gall ardal gadwraeth gael ei diogelu neu ei gwella gan ddatblygiad sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad neu olwg ardal neu nad yw'n amharu arnynt. Gellir ystyried mesurau lliniaru hefyd, a allai gael effaith niwtral neu gadarnhaol ar ddatblygiad arfaethedig mewn ardal gadwraeth.

6.5.20 Mae dynodi ardaloedd cadwraeth yn golygu y gellir rheoli'r gwaith o ddymchwel adeiladau anrhestredig o fewn yr ardaloedd hyn yn gyfan gwbl neu'n sylweddol, ond nid oes angen caniatâd ardal gadwraeth er mwyn dymchwel adeiladau yn rhannol. Mae'r gweithdrefnau fwy neu lai yr un peth â'r gweithdrefnau ar gyfer caniatâd adeilad rhestredig. Wrth ystyried cais am ganiatâd ardal gadwraeth, dylid ystyried effeithiau ehangach y gwaith dymchwel ar yr ardal o amgylch yr adeilad ac ar bensaernïaeth, archaeoleg neu ddiddordeb hanesyddol yr ardal gadwraeth yn gyffredinol. Dylid hefyd ystyried strwythurau newydd. Dylai'r rhagdybiaeth gyffredinol fod o blaid cadw adeiladau sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad neu olwg ardal gadwraeth. Dylid profi cynigion yn erbyn arfarniadau awdurdodau cynllunio lleol o ardaloedd cadwraeth, lle maent ar gael.

6.5.21 Dylai awdurdodau ystyried cyfraniad gweledol a hanesyddol coed mewn ardaloedd cadwraeth a'u cyfraniad at amwynder yr ardaloedd hyn. Gall gwaith plannu newydd neu waith ailblannu fod yn briodol os yw'n cyd-fynd â chymeriad neu olwg yr ardal. Mae darpariaethau arbennig yn gymwys i goed mewn ardaloedd cadwraeth nad ydynt yn destun Gorchmynion Cadw Coed.[33]

6.5.22 Mae'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir[34] yn ei gwneud yn ofynnol i geisiadau cynllunio gael eu cyflwyno am fathau penodol o waith datblygu mewn ardaloedd cadwraeth a fyddai, fel arall, yn cael eu hystyried yn ddatblygiad a ganiateir. O dan amgylchiadau eithriadol, er mwyn helpu i warchod nodweddion sy'n elfennau allweddol o gymeriad a golwg ardaloedd cadwraeth penodol a lle mae bygythiad gwirioneddol a phenodol, gall awdurdodau cynllunio lleol hefyd dynnu hawliau datblygu penodol a ganiateir yn ôl gan ddefnyddio Cyfarwyddiadau Erthygl 4.[35] Nid yw dynodi ardal gadwraeth ynddo'i hun yn cyfiawnhau gwneud Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn awtomatig.

---

[32] Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, adran 72; TAN 7: Rheoli Hysbysebion Awyr Agored.
[33] Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adran 211; TAN 10: Gorchmynion Cadw Coed.
[34] Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995
[35] Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, adrannau 4-6.

## Asedau Hanesyddol Lleol

6.5.23 Pan fydd awdurdod cynllunio lleol wedi nodi asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig neu wedi llunio rhestr o asedau hanesyddol lleol ac wedi cynnwys polisi yn ei CDLl ar gyfer eu diogelu a'u gwella, bydd unrhyw ganllawiau cynllunio atodol ategol yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar gais cynllunio.

## Parciau a Gerddi Hanesyddol

6.5.24 Dylai awdurdodau cynllunio lleol warchod a chadw parciau a gerddi a'u lleoliadau a nodir yn y gofrestr o barciau a gerddi hanesyddol yng Nghymru. Mae'n rhaid ymgynghori â Cadw ynghylch pob cais cynllunio lle mae gwaith datblygu yn debygol o effeithio ar safle neu leoliad parc neu ardd hanesyddol gofrestredig.[36] Dylai effaith datblygiad arfaethedig ar barc neu ardd gofrestredig, neu ei leoliad/lleoliad fod yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar gais cynllunio.

## Tirweddau Hanesyddol

6.5.25 Dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried gwybodaeth ar y gofrestr o dirweddau hanesyddol yng Nghymru wrth ystyried goblygiadau datblygiadau sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol,[37] neu, ar ôl iddynt gael eu galw i mewn, pe bai Gweinidogion Cymru o'r farn y byddent yn cael mwy nag effaith leol.[38] Dylid ymgynghori â Cadw ynghylch gwaith datblygu o fewn ardal tirwedd hanesyddol gofrestredig sy'n gofyn am Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol.[39]

6.5.26 Mae Cadw a Chyngor Cefn Gwlad Cymru fel yr oedd (sydd bellach yn rhan o Cyfoeth Naturiol Cymru) wedi cyhoeddi ‘canllaw arfer da’ ar ddefnyddio'r gofrestr o dirweddau hanesyddol.[40] Mae'n cynnwys dull o asesu effeithiau gwaith datblygu arfaethedig ar ardal o dirwedd hanesyddol (ASIDOHL2). Dylai ymgeiswyr ddefnyddio'r dull hwn wrth lunio'r rhan berthnasol o bennod o'u Datganiad Amgylcheddol sy'n ymdrin â Threftadaeth Ddiwylliannol.

---

[36] Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) (Diwygio) 2016, Atodlen 4 (l)(iii).
[37] Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 1999, atodlen 3, 2 (viii).
[38] Polisi Cynllunio Cymru Adran 3.12
[39]Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) (Diwygio) 2016 Atodlen 4 (l)(iv)
[40] Cadw a Chyngor Cefn Gwad Cymru, *Canllaw Arfer Da* a*r ddefnyddio'r Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru yn ystod y Broses o Gynllunio a Datblygu*, Diwygiwyd (2[il]) argraffiad (2007).

### Datblygiad Galluogi

6.5.27 Gall datblygiad galluogi cynnig buddiannau sylweddol o ran treftadaeth, a fyddai'n groes i amcanion eraill polisi cynllunio cenedlaethol neu leol. O dan egwyddor cynllunio sefydledig gall datblygiad o'r fath fod yn briodol os yw budd cyhoeddus achub, gwella neu hyd yn oed waddoli ased hanesyddol pwysig yn drech na'r niwed i fuddiannau perthnasol eraill. Rhoddir profion sy'n nodi pryd y gallai datblygiad galluogi fod yn dderbyniol yn *Egwyddorion Cadwraeth* Cadw.[41] Mae'n rhaid i ddatblygiad galluogi bob amser fod yn gymesur â'r budd cyhoeddus a gynigia.

6.5.28 Wrth ystyried cynllun datblygiad galluogi, dim ond os bodlonir y meini prawf canlynol y dylid rhoi caniatâd cynllunio:

- cafodd effaith y datblygiad ei nodi'n fanwl yn y cais o'r cychwyn, a dylid ei gymeradwyo fel arfer drwy roi caniatâd cynllunio llawn, yn hytrach na chaniatâd cynllunio amlinellol
- mae'r proses o gyflawni'r amcan treftadaeth yn gysylltiedig yn sicr ac yn orfodadwy â'r datblygiad galluogi
- caiff y lle dan sylw ei atgyweirio yn ôl safon y cytunwyd arni, neu os yw'r arian i wneud hynny'n cael ei ddarparu, mor gynnar â phosibl yn ystod y datblygiad galluogi, yn ddelfrydol o'r cychwyn ac yn sicr cyn cwblhau neu feddiannu'r datblygiad galluogi
- mae'r awdurdod cynllunio lleol yn monitro'r ffordd y'i gweithredir yn fanwl gan weithredu'n ddi-oed os oes angen i sicrhau y bodlonir rhwymedigaethau.

## Ffigur 6.1 Cadw'r Amgylchedd Hanesyddol

### Canllaw ar ddefnyddio datganiadau polisi cynllunio cenedlaethol mewn CDLlau

### Ystyriaethau Lleoliadol

At ei gilydd, bydd y polisïau y dylid eu cymhwyso mewn ardaloedd sydd i'w gwarchod, megis ardaloedd cadwraeth, ac at adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig, yn glir o ddeddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol ac ni fydd angen eu hailadrodd mewn CDLl oni fydd cymhwysiad sy'n nodedig i'r ardal leol.

### Polisïau yn seiliedig ar Bynciau

Mae'r datganiadau polisi cynllunio cenedlaethol ar yr amgylchedd hanesyddol y dylid eu cynnwys, neu ystyried eu cynnwys, mewn polisïau yn seiliedig ar

[41] Gweler 'Egwyddorion Cadwraeth ar Waith', paragraffau 49-52, tudalennau 32–33.

bynciau yn y CDLl, i'w gweld yn y paragraffau canlynol. Dylai polisïau o'r fath ganolbwyntio ar unrhyw elfen sy'n nodedig i'r ardal leol sy'n wahanol i ganllawiau cenedlaethol neu y byddai'n werth ymhelaethu arni.

| Paragraff | Mater Polisi |
|---|---|
| 6.4.1 | Yr amgylchedd hanesyddol |
| 6.4.4 | Safleoedd Treftadaeth y Byd |
| 6.4.6 | Olion archaeolegol |
| 6.4.7 | Adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth |
| 6.4.8 | Asedau Hanesyddol Lleol |
| 6.4.9 | Parciau a Gerddi a Thirweddau Hanesyddol yng Nghymru |

**Polisïau Rheoli Datblygu Cenedlaethol**

Mae'r paragraffau canlynol yn cynnwys datganiadau polisi rheoli datblygu cenedlaethol na ddylai fod angen eu hailadrodd fel polisi lleol mewn CDLlau.

| Paragraff | Mater Polisi |
|---|---|
| 6.5.1 | Safleoedd Treftadaeth y Byd |
| 6.5.4 | Olion archaeolegol a henebion cofrestredig |
| 6.5.5 | Asesu a gwerthuso olion archaeolegol |
| 6.5.6 | Ymchwiliad archaeolegol cyn i'r gwaith datblygu ddechrau |
| 6.5.8 | Cynigion sy'n effeithio ar heneb gofrestredig neu ei lleoliad |
| 6.5.10, 6.5.11 a 6.5.12 | Cynigion sy'n effeithio ar adeilad rhestredig neu ei leoliad |
| 6.5.13, 6.5.14 a 6.5.15 | Caniatâd i ddymchwel adeilad rhestredig/defnyddio amodau |
| 6.5.18 | Diogelu a gwella ardal gadwraeth |
| 6.5.19 | Cynigion sy'n effeithio ar gymeriad neu olwg ardal gadwraeth |
| 6.5.20 | Caniatâd ardal gadwraeth |
| 6.5.21 | Coed mewn ardal gadwraeth |
| 6.5.23 | Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol |
| 6.5.24 | Cynigion sy'n effeithio ar safleoedd ar *Cofrestr o Barciau a Gerddi Hanesyddol yng Nghymru* |
| 6.5.25 | Cynigion sy'n effeithio ar safleoedd ar *Cofrestr o Dirweddau Hanesyddol yng Nghymru* |
| 6.5.27 a 6.5.28 | Datblygiad galluogi a'r amgylchedd hanesyddol |

Mae'n bosibl y cyfeirir at bynciau sy'n berthnasol i'r ardal leol drwy groesgyfeiriad at Bolisi Cynllunio Cymru yn unig